Gwasanaeth Cysylltiadau Cyfrinachol

01633 234888

Cysylltiadau Cyfrinachol yw grŵp bach o bobl y gallwch ymddiried ynddynt sydd yma i gynnig cefnogaeth gyfrinachol petaech yn teimlo eich bod yn cael eich bwlio yn y gwaith, eich bod yn cael eich cyhuddo o fwlio neu eich bod yn dyst bwlio.

Rydym yn cynnig lleoliad annibynnol y gallwch fynd iddo yn gyfrinachol ble gallwch rannu eich profiadau a thrafod syniadau ar beth i'w wneud nesaf os ydych yn dymuno.

Mae'n bwysig nodi nad ydym yn adrodd yn ôl i neb ac nad yw ein sgyrsiau'n effeithio o gwbl ar unrhyw ymchwiliadau. Mae'n wasanaeth cwbl ar wahân sy'n ceisio cefnogi cydweithwyr mewn amgylchiadau eithriadol o anodd.

Mae'r Cysylltiadau Cyfrinachol yn staff a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd sydd â'r sgiliau priodol i gynnig y gwasanaeth cyfrinachol hwn gan gynnwys sgiliau gwrando gydag empathi, gosod ffiniau, dealltwriaeth o fwlio ac aflonyddu a chyfrinachedd. Gall Cysylltiadau Cyfrinachol hefyd eich cyfeirio at gymorth neu gefnogaeth ychwanegol os oes angen.

Gall y cymorth fod naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Dim ond drwy hunangyfeirio y gallwch ddefnyddio'r Gwasanaeth a gallwch ei gyrchu'n gyfrinachol drwy ffonio 01633 234888 neu fel arall e-bostiwch: ABB_confidential_contact@wales.nhs.uk